OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1818

# Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

## RHAN 8

Swyddogion adolygu annibynnol ac ymwelwyr annibynnol

**Ymwelwyr annibynnol**

**55.** Mae person a benodwyd gan yr awdurdod cyfrifol fel ymwelydd annibynnol o dan adran 98 o Ddeddf 2014 i'w ystyried yn annibynnol ar yr awdurdod hwnnw os nad yw'r person a benodwyd yn gysylltiedig â'r awdurdod cyfrifol yn rhinwedd bod—

(a) yn aelod o'r awdurdod cyfrifol neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu is-bwyllgorau, boed etholedig neu gyfetholedig,

(b) yn swyddog yr awdurdod cyfrifol a gyflogir i arfer unrhyw un o'r swyddogaethau canlynol—

(i) y swyddogaethau a roddwyd i'r awdurdod cyfrifol neu sy'n arferadwy ganddo yn ei rôl fel awdurdod addysg lleol,

(ii) y swyddogaethau a roddwyd i'r awdurdod cyfrifol neu sy'n arferadwy ganddo sydd yn swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (o fewn yr ystyr yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014 i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny'n ymwneud â phlant),

(iii) y swyddogaethau a roddwyd i'r awdurdod cyfrifol o dan adrannau 61 i 63 a 103 i 118 o Ddeddf 2014 (i'r graddau nad ydynt yn dod o fewn is-baragraff (ii)),

(iv) y swyddogaethau a roddwyd i'r awdurdod cyfrifol gan adrannau 25, 26, 28 a 29 o Ddeddf Plant 2004([1]),

(v) y swyddogaethau a roddwyd i'r awdurdod cyfrifol yn unol ag adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006([2]) neu adran 75 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006([3]), neu

(c) yn briod, partner sifil neu berson arall (pa un ai o wahanol ryw neu o'r un rhyw) sy'n byw ar yr un aelwyd fel partner person sy'n dod o fewn paragraffau (a) neu (b).

(**1**) 2004 p. 31. Diwygiwyd adran 25 gan adran 39 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 (p. 21) ("Deddf 2007") a pharagraffau 4(1) a 5 o Ran 1 o Atodlen 3 iddi. Diwygiwyd adran 28 gan adran 39 o Ddeddf 2007 a pharagraffau 4(1) a 6 o Ran 1 o Atodlen 3 iddi. Diwygiwyd adran 29 gan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p. 43) a pharagraffau 264 a 267 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

(**2**) 2006 p. 42.

(**3**) 2006 p. 41.